

# CYSYLLTIAD EFYRNWY FRANKTON

## YMGYNGHORIAD CAM UN

## CRYNODEB O'R ADBORTH

Gaeaf 2023/24

GREEN GEN CYMRU

# CYFLWYNIAD

## Mae Green GEN Cymru yn rhan o Grŵp Bute Energy a bydd yn cysylltu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan barciau gwynt a solar Bute Energy â'r Grid Cenedlaethol.


Rydym ni'n gweithredu nawr i adeiladu a gweithredu rhwydwaith ynni gwyrdd, a fydd yn sicrhau bod 100% o ynni adnewyddadwy yn gallu llifo i gymunedau. Bydd y cysylltiad newydd hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n effeithio ar ein tirweddau, bywoliaeth pobl a'n bywyd gwyllt drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gysylltu ynni gwyrdd â'r grid, yn barod i gyflenwi cartrefi a busnesau.

Rydym yn cynnig gosod llinell uwchben 132kV newydd, ac adeiladu is-orsaf gasglu a chompownd selio pennau ceblau i gysylltu Llyn Lort a pharciau ynni eraill yng nghanolbarth Cymru â'r Grid Cenedlaethol yn Lower Frankton, Swydd Amwythig. Bydd cysylltiad Efyrnwy Frankton oddeutu 50km o hyd, a bydd yn defnyddio peilonau 27m.

Roeddem yn falch o allu rhannu ein cynigion â rhanddeiliaid a chymunedau yn ein hymgynghoriad cyntaf yn ystod hydref 2023. Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiadau, a roddodd adborth, ac a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.

Roedd hi'n braf cael siarad â phobl i glywed eich barn a deall yr effeithiau rydych chi'n meddwl y gallai'r cynigion eu cael ar yr ardal. O'r sgyrsiau hyn, mae'n amlwg eich bod am i ni feddwl yn ofalus am effeithiau gweledol, yn ogystal ag effeithiau ar bobl leol a thirfeddianwyr. Mae'r rhain yn faterion pwysig i ni hefyd.

Yn y crynodeb hwn, cewch ragor o wybodaeth am y themâu allweddol a godwyd gan bobl yn eu hadborth, yn ogystal â sut y byddwn yn defnyddio hyn i lywio ein cynlluniau yn y dyfodol.



# PAM FOD ANGEN CYSYLLTIAD NEWYDD ARNOM

## Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth ein bywoliaeth, ein tirweddau a'n bywyd gwyllt.

Mae heriau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cydnabod yn helaeth gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a'r awdurdodau lleol ym Mhowys a Swydd Amwythig. Mae'r ddau gyngor wedi adrodd bod effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu gweld yn y siroedd.

Wrth i ni symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd canolfannau cynhyrchu ynni newydd yn cael eu lleoli lle mae modd defnyddio ffynonellau cynaliadwy fel gwynt, ynni llanw a solar. Yn ogystal, bydd y grid trydan yn newid i gysylltu'r ffynonellau newydd hyn â chartrefi a busnesau.

Yng nghanolbarth Cymru a Swydd Amwythig, mae parciau ynni newydd wedi'u cynllunio, ond nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i'w cysylltu. Rydym ni angen seilwaith newydd ar frys er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil. Os na fyddwn yn uwchraddio'r rhwydwaith trydan yn gyflym, mae perygl y byddwn yn methu cyrraedd targedau adnewyddadwy ac yn methu â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Bydd cysylltiad Efyrnwy Frankton Green GEN Cymru yn golygu bod modd i gartrefi a busnesau ddefnyddio'r ynni a gynhyrchir gan y parciau ynni newydd, yn lleol ac yn genedlaethol.


Mae'r seilwaith sydd ei angen arnom i bontio i economi carbon isel hefyd yn gallu dod â llawer o fanteision. Mae ganddo'r potensial i greu sgiliau a swyddi newydd, yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd yn cefnogi'r defnydd o dechnolegau carbon isel yn ein cartrefi a'n busnesau.

Yn ogystal, gallai ein prosiect gyfrannu at rwydwaith mwy gwydn a dibynadwy ar gyfer y rhanbarth – gan ddarparu ar gyfer dyfodol lle mae pob un ohonom yn dibynnu mwy ar drydan, wrth i ni symud oddi wrth nwy ac olew.


## Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r heriau hyn



**Cynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil**



**Isadeiledd grid newydd i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau**



**Gweithredu'n gyflym a chyflawni prosiectau yn effeithlon**

# EIN HYMGYNGHORIAD: HYDREF 2023

Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cam un rhwng
**6 Medi ac 18 Hydref 2023.**

**Gofynnodd yr ymgynghoriad am eich adborth ar:**

- y llwybr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer llinell uwchben o beilonau 27m;
- y safle ar gyfer lleoli is-orsaf gasglu a chompownd selio pennau ceblau.

Fe wnaethom gynnal sesiynau briffio i randdeiliaid, gweminarau a digwyddiadau cyhoeddus yn y cymunedau sydd agosaf at y prosiect.

Roedd yn braf cwrdd â chynifer o bobl yn y gymuned ac roedd yn ffordd werthfawr i ni glywed eich barn am ein cynigion.

Yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd a oedd unrhyw ffactorau nad oeddem wedi'u hystyried yn ein gwaith hyd yma, a'r hyn roeddech chi am i ni ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynigion.

Mae eich gwybodaeth leol yn amhrisiadwy o ran ein helpu i ddeall a lliniaru unrhyw effeithiau posibl ar y prosiect, ac amlinellu meysydd yr hoffech i ni eu hystyried ar gyfer y gronfa budd cymunedol.

**Mynychwyr y digwyddiad**

692

**Cyflwyniadau adborth**

183

I gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan: **www.greengenvyrnwyfrankton.com**

# EICH ADBORTH: BETH DDYWEDOCH CHI WRTHYM NI A SUT RYDYM NI'N EI YSTYRIED

Hoffem ddiolch i bawb am yr adborth a gawsom. Mae'n ein helpu i ddeall y ffactorau rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y ffordd mae'r prosiect yn mynd rhagddo.

Cawsom sylwadau am y llinell uwchben ei hun a'r penderfyniadau ynghylch llwybrau, yn ogystal â sylwadau ehangach am yr angen am dechnoleg carbon isel. Rydym wedi crynhoi'r adborth i'r themâu allweddol isod.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori a fydd yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r holl adborth rydym wedi'i gael, a sut mae pob un o'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ein hymgynghoriad nesaf yn 2024.

| Adran 1 | Adran 2 | Adran 3 | Adran 4 | Adran 5 |
|---|---|---|---|---|
| Cefn Coch i Langynyw | Langynyw i Meifod | Meifod i Lansantfffraid-ym-Mechain | Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech | Llanymynech i Lower Frankton |

| Pwnc | Eich sylwadau | Yr hyn rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Adran 1** | ***Rydych chi wedi gofyn i ran o'r llwybr yn y man hwn gael ei osod o dan y ddaear drwy ardal y Parc Cenedlaethol arfaethedig sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.*** | Mae Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru wedi amlinellu ardal chwilio i ymestyn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a throi'r ardal estynedig hon yn Barc Cenedlaethol. Mae'r ardal chwilio hon yn amlinellu terfynau daearyddol yr ardal chwilio, yn hytrach na maint y Parc Cenedlaethol arfaethedig ei hun.<br>Nid yw ffin y parc wedi'i sefydlu eto.<br>Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr ardal chwilio i'r gogledd-orllewin o Lanfair Caereinion. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae cynigion y Parc Cenedlaethol yn mynd rhagddynt er mwyn deall beth mae'n ei olygu i'n prosiect. |
| | ***Roedd pryder ynghylch effeithiau gweledol peilonau yn lleoliad gwledig yr ucheldiroedd a'r effeithiau posibl ar anheddau unigol.*** | Yr ydym yn deall sefyllfa unigryw'r rheini sy'n byw yn ucheldiroedd Powys, a gwerth y dirwedd i'r bobl hyn.<br>Mae'r llwybr yn yr adran hon wedi cael ei ddewis gan ei fod yn darparu cyfleoedd i leihau'r effeithiau ar eiddo preswyl.<br>Lle bo'n bosibl, byddwn yn defnyddio'r dyffryn a'r coetir presennol at ddiben sgrinio, er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol. |

| Pwnc | Eich sylwadau | Yr hyn rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Adran 2** | ***Mae'n amlwg bod pobl yn poeni am lifogydd yn Nyffryn Meifod – rydych chi eisiau sicrhau nad ydym yn gwneud llifogydd yn waeth ac wedi gofyn sut gallwn ni lwybro mewn ardal lle mae llifogydd.*** | RRydym yn deall pryderon pobl am lifogydd yn Nyffryn Meifod.<br>Byddwn yn ystyried unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd o ganlyniad i'n cynigion yn ystod cam nesaf ein datblygiad dylunio, ac yn ystyried sut gallwn leihau unrhyw effeithiau. |
| | ***Mae llawer o bobl yn pryderu am effeithiau gweledol peilonau yn Nyffryn Meifod.*** | Mae pobl yn arbennig o bryderus am effeithiau gweledol y peilonau drwy Ddyffryn Meifod.<br>Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn yr ardal hon wedi cael ei ddewis i leihau effeithiau ar draws ystod o bynciau, gan gynnwys treftadaeth, amaethyddiaeth a bioamrywiaeth, ac mae wedi cael ei gyfeirio'n fwriadol i ffwrdd oddi wrth Fathrafal. Mae rhagor o wybodaeth am y llwybr drwy'r ardal hon ar gael yn y ddogfen llwybro ac ymgynghori sydd ar gael ar y wefan.<br>Rydym yn deall gwerth yr ardal hon i bobl leol a byddwn yn parhau i asesu ein cynigion i weld a oes angen eu haddasu. Byddwn hefyd yn meddwl yn ofalus am effaith weledol peilonau wrth i ni ddatblygu cynlluniau mwy manwl. |
| **Adran 3** | ***Mae pobl yn bryderus am effeithiau gweledol y peilonau, o gyfeiriad Meifod a Llansanffraid.*** | Rydym y gwerthfawrogi bod gennych bryderon ynghylch pa mor agos yw'r llinell uwchben i gymunedau ar hyd y llwybr, yn enwedig Meifod a Llansanffraid.<br>Mae cyfyngiadau sylweddol ar yr ardal hon ac mae ein hadroddiad llwybro yn amlinellu pam ein bod wedi dewis y dyffryn.<br>Byddwn yn defnyddio cyfleoedd sgrinio a phantiau naturiol yn y tir i leoli'r peilonau, er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol gymaint â phosibl. |
| | ***Cafwyd ceisiadau i'r rhan hon o'r llwybr gael ei gosod o dan y ddaear fel y cynigiwyd yn flaenorol gan y Grid Cenedlaethol.*** | Mae cysylltiad Efyrnwy Frankton yn cael ei gynnig ar hyn o bryd fel llinell uwchben.<br>Byddwn yn datblygu ein cynigion yn sensitif ac yn ystyried a oes angen gosod unrhyw ran o'r cysylltiad o dan y ddaear mewn ymateb i asesiadau parhaus ac adborth i'r ymgynghoriad. |
| **Adran 4** | ***Roedd yr adborth yn egluro bod pobl yn poeni am yr effaith bosibl ar dwristiaeth yn yr ardal, yn enwedig y parciau gwyliau presennol yn y rhan hon o'r llwybr.*** | Mae peilonau'n ymddangos mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle mae tirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn rhannau ffyniannus o'r economi leol – mae seilwaith trydanol a'r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn sawl lle.<br>Rydym yn deall y pryder am yr effeithiau posibl ar barciau gwyliau sefydledig yn yr ardal.<br>Pan fo'n bosibl, byddwn yn teithio i ffwrdd o'r safleoedd hyn, a byddwn yn meddwl yn ofalus am leoliad y peilonau er mwyn ceisio lleihau'r effeithiau gweledol cymaint â phosibl. |
| | ***Mynegoch bryderon ynghylch sut y byddai'r llinell uwchben yn rhyngweithio â'r seilwaith presennol, e.e. camlas Trefaldwyn.*** | Ar hyn o bryd, mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn croesi camlas Trefaldwyn ar bwynt i'r de o Lociau Carreghwfa.<br>Byddem yn gweithio i leoli'r peilonau mor bell o'r gamlas â phosibl, gan ddefnyddio coed presennol at ddiben sgrinio.<br>Byddwn yn parhau i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd i drin yr ardal hon mor sensitif â phosibl. |

| Pwnc | Eich sylwadau | Yr hyn rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Adran 4** | ***Rydych chi eisiau gwybod mwy am sut gallai'r llinell uwchben ryngweithio â ffordd osgoi arfaethedig Llanymynech.*** | Rydym yn deall bod pwnc y ffordd osgoi arfaethedig yn Llanymynech yn destun pryder i rai yn yr ardal.<br>Mae ffordd osgoi arfaethedig Llanymynech wedi bod yn ystyriaeth ers dros 20 mlynedd, ac eleni mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau 'nad yw'n flaenoriaeth'.<br>Os bydd y prosiect yn cael ei ariannu yn y dyfodol, byddem yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ar sut gallai'r prosiectau fodoli gyda'i gilydd, gan gynnwys llwybro'r llinell uwchben dros y ffordd, fel sy'n gyffredin mewn llawer o ardaloedd. |
| **Adran 5** | ***Rydych chi'n poeni am effeithiau gweledol posibl y peilonau, yn enwedig ar y cyd â'r llinell uwchben 400kV bresennol.*** | Rydym yn deall y pryder ynghylch y rhyngweithio â'r llinell 400kV bresennol.<br>Bydd peilonau cysylltiad Efyrnwy Frankton oddeutu hanner uchder y llinell 400kV bresennol yn yr ardal. Bydd y peilonau'n cael eu gosod mewn ffordd sensitif, gan ddefnyddio cyfleoedd sgrinio o'r dyffrynnoedd naturiol a'r coed presennol. |
| | ***Mae'n amlwg eich bod eisiau gwybod mwy am is-orsaf y rhwydwaith trawsyrru trydan cenedlaethol ger Lower Frankton.*** | Mae'r Grid Cenedlaethol yn cynnig yr is-orsaf arfaethedig ger Lower Frankton i gysylltu ein llinell uwchben â'r rhwydwaith trawsyrru trydan cenedlaethol.<br>O ganlyniad, nid yw'n rhan o'r prosiect hwn ac ymgynghorir yn ei gylch ar wahân.<br>Rydym yn deall y bydd hyn yn achosi pryder i'r rheini sy'n byw yn yr ardal. Hoffem eich sicrhau y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n lleol pan fydd y Grid Cenedlaethol wedi datblygu ei gynigion ymhellach. |
| **Ynni carbon isel** | ***Yn eich adborth, fe wnaethoch fynegi pryderon am yr angen am dechnoleg carbon isel, yn benodol y ffermydd gwynt sy'n cael eu cynnig gan Bute Energy.*** | Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy fel rhan o'u cynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.<br>Wrth i ni symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd canolfannau cynhyrchu ynni newydd yn cael eu lleoli lle mae modd defnyddio ffynonellau cynaliadwy fel gwynt, ynni llanw a solar.<br>Os rhoddir caniatâd, gallai Parciau Ynni Bute Energy gyflenwi 25% o anghenion ynni adnewyddadwy Cymru, gan ddarparu ynni glân a gwyrdd i gartrefi a busnesau ledled y wlad.<br>Byddai hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddyheadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyrraedd Sero Net erbyn 2050. |
| **Meysydd Electromagnetig (EMFs)** | ***Mae gennych bryderon am Feysydd Electromagnetig sy'n gysylltiedig â bod wrth ymyl llinell uwchben 132kV.*** | Mae unrhyw ddefnydd o drydan yn golygu dod i gysylltiad â meysydd trydanol a magnetig. Mae hyn yn cynnwys troi bwlb golau ymlaen, defnyddio popty neu wylio'r teledu.<br>Mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn lefel 'ddiogel' o amlygiad yn benderfyniad a wneir gan y llywodraeth ac mae'n amodol ar gyngor gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd a chyrff llywodraethu rhyngwladol.<br>Ar hyn o bryd, mae data gan y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni yn dangos bod cysylltiad ag EMF wrth gerdded o dan linell 132kV yr un fath â cherdded heibio i ficrodon sydd wedi'i droi ymlaen ac sy'n cael ei ddefnyddio.<br>O ganlyniad, ystyrir ei fod yn lefel ddiogel o amlygiad.<br>I gael rhagor o wybodaeth am EMFs, rydym yn eich annog i ddarllen y wybodaeth sydd ar gael gan Asiantaeth Diogelu Iechyd y DU. **https://www.gov.uk/government/collections/electromagnetic-fields**. |

| Pwnc | Eich sylwadau | Yr hyn rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Gosod y llinell o dan y ddaear** | ***Rydych chi wedi gofyn i ni ystyried gosod rhan o'r llinell uwchben arfaethedig, neu'r llinell uwchben arfaethedig gyfan, o dan y ddaear.*** | Mae cysylltiad Efyrnwy Frankton yn cael ei gynnig ar hyn o bryd fel llinell uwchben.<br>Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflym – mae darparu'r cysylltiad newydd yn gyflym yn allweddol os ydym ni am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted â phosibl.<br>Mae ceblau o dan y ddaear fel arfer rhwng 6 a 10 gwaith yn ddrutach na llinellau uwchben, ac maen nhw'n creu mwy o aflonyddwch ar y tir yn ystod y cyfnod adeiladu.<br>Byddwn yn datblygu ein cynigion yn sensitif ac yn ystyried a oes angen gosod unrhyw ran o'r cysylltiad o dan y ddaear mewn ymateb i asesiadau parhaus ac adborth i'r ymgynghoriad. |
| **Ceisiadau llwybro** | ***Awgrymodd llawer ohonoch ddewisiadau amgen i'r llwybr mewn gwahanol fannau.*** | Diolch i'r rheini a wnaeth awgrymiadau amgen ar gyfer rhannau o'r llwybr, mae'r rhain wedi bod yn werthfawr i ni.<br>Bydd pob awgrym llwybr amgen yn cael ei ystyried gan ein tîm llwybro yn erbyn rheolau Holford, effeithiau gweledol, nodweddion amgylcheddol, dichonoldeb technegol, a chost. |
| **Cynigion y Grid Cenedlaethol** | ***Roedd nifer o sylwadau'n cyfeirio at gynnig blaenorol gan y Grid Cenedlaethol yn yr ardal fel cymhariaeth â'r prosiect hwn.*** | Er bod cynigion y Grid Cenedlaethol yn 2013 yn debyg iawn i gysylltiad Efyrnwy Frankton, roedd y ddau lwybr yn cael eu cynnig gan wahanol gwmnïau gyda gwahanol dimau amgylcheddol. Mae unrhyw debygrwydd yn y llwybr yn deillio o ddichonoldeb ac nid awydd i'w cadw'r un fath.<br>Mae cysylltiad Efyrnwy Frankton yn llinell uwchben 132kV, yn hytrach na 400kV a gynhigiwyd gan y Grid Cenedlaethol. Ar ben hynny, rydym yn cynnig peilonau 27m yn hytrach na pheilonau 50m. |
| **Ymgynghoriad** | ***Fe wnaethoch chi ofyn i ni a allem ddarparu rhagor o fanylion am ein cynigion yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys delweddau o sut gallai'r peilonau edrych yn y dirwedd.*** | Rydym ni ar gam cynnar iawn yn ein cynigion ar gyfer cysylltiad Efyrnwy Frankton.<br>Roedd ein hymgynghoriad cychwynnol wedi helpu i gasglu adborth i lywio'r prosiect. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion am y llwybr, ochr yn ochr â lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau, yng ngham nesaf yr ymgynghoriad.<br>Diolch i'r rheini a roddodd adborth ar yr hyn yr hoffent ei weld yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hyn ac yn gweld a oes modd eu cynnwys yn ein hymgynghoriad nesaf yn 2024. |

## Amserlen y prosiect

**2023** – Medi – Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf

**2024** – Ail ymgynghoriad cyhoeddus

**2025** – Cyflwyno ein gorchymyn caniatâd datblygu i'w adolygu

**2026** – Y gynharach bydd y cais yn cael ei benderfynu

**2027** – Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau os caiff y prosiect ei ganiatáu

**2028** – Cysylltiad Efyrnwy Frankton yn weithredol

# Y CAMAU NESAF

Mae eich adborth ar yr ymgynghoriad wedi rhoi llawer o wybodaeth werthfawr i ni a fydd yn cael ei hystyried wrth i ni ddatblygu'r prosiect.



## Gweithio gyda thirfeddianwyr

**Mae gennym dîm tir penodol sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda thirfeddianwyr y mae'r cynigion yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â thirfeddianwyr cyn yr ymgynghoriad nesaf yn 2024.**

**Os ydych chi'n dirfeddiannwr nad yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt cymunedol ar y dudalen gefn.**



## Adroddiad ymgynghori anstatudol

**Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori a fydd yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r holl adborth rydym wedi'i gael, a sut mae pob un o'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ein hymgynghoriad nesaf.**



## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid drwy gydol y prosiect, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect.**



## Llwybro a gosod peilonau

**Byddwn yn parhau i weithio ar y llwybrau, a fydd yn cael eu dylanwadu gan yr adborth a gawsom.**

**Rydym ni hefyd wedi dechrau gweithio i ganfod lle gallai peilonau gael eu lleoli. Bydd gennym ragor o wybodaeth am yr agweddau hyn yn yr ymgynghoriad nesaf.**



GREEN GEN CYMRU


www.greengen
vyrnwyfrankton.com

info@greengen
vyrnwyfrankton.com

0800
915 3590

FREEPOST
Green GEN
Cymru V2F